Biopsi Ysgyfaint Tomograffeg Gyfrifiadurol (CT)

Anadlol



Pam y cefais gyngor i gael y prawf hwn?

Mae eich ymgynghorydd wedi gwneud cais am fiopsi nodwydd fân ar eich cyfer, i'w helpu i ganfod achos y cysgod yn eich pelydr-x o'r frest. Diben y driniaeth hon yw cael darn bach o feinwe'r ysgyfaint i'w ddadansoddi yn y labordy patholeg. Mae'r math hwn o fiopsi yn llwyddiannus fel arfer wrth benderfynu a yw'r cysgod ar y pelydr-x o'r frest oherwydd canser yr ysgyfaint neu beidio. Fodd bynnag, ni fydd canlyniad negyddol o'r biopsi o reidrwydd yn eithrio'r posibiliad o hyn.

Ble gwneir hyn?

Caiff y driniaeth ei pherfformio gan Radiolegydd yn yr adran Pelydr-X, gan ddefnyddio uwchsain neu reolydd pelydr-x. Mae'r driniaeth yn cael ei pherfformio fel achos dydd yn yr adran radioleg. Byddwch yn cael amser i ddod i'r adran radioleg yn Ysbyty Nevill Hall a bydd y staff radioleg a/neu yr arbenigwyr nyrsio sy'n gweithio yn y tîm anadlol yn cwrdd â chi. Mewn rhai achosion gallai fod angen i gleifion aros yn yr ysbyty am gyfnod byr ar ôl y biopsi.

Alla i fwyta ac yfed cyn y profion?

Ni ddylech fwyta unrhyw beth am 4 awr cyn y driniaeth, a dim ond dŵr am hyd at 2 awr cyn y driniaeth.

A ddylwn i gymryd fy nhabledi ar ddiwrnod y prawf?

Dylech, fel arfer. Bydd y meddygon a welsoch yn y clinig wedi gwirio eich meddyginiaethau gyda chi. Gofynnwch a ddylech eu cymryd. Ni ddylech fod yn cymryd Warfarin, Heparin, teneuwyr gwaed newyddach (e.e. Apixaban) na rhai meddyginiaethau diabetes (Metformin). Gallai fod angen i ni drefnu prawf gwaed (INR) cyn y driniaeth os ydych yn cymryd Warfarin. Os ydych yn cymryd cyffur o'r enw Clopidogrel, dylech beidio â'i gymryd am 7 diwrnod cyn y biopsi. Fodd bynnag, os ydych wedi cael stent coronaidd o fewn y flwyddyn ddiwethaf, byddai angen i ni drafod hyn gyda'ch Cardiolegydd.

Beth mae hyn yn ei gynnwys?

Mae'r driniaeth yn cynnwys glanhau'r croen, chwistrellu ychydig o anesthetig lleol a mewnosod nodwydd biopsi fechan i mewn i'r darn penodol o ysgyfaint. Efallai y bydd angen mewnosod y nodwydd fwy nag unwaith. Mae'n driniaeth gyflym ac ni ddylai gymryd mwy na 45 munud. Ar ôl i ni gael sampl foddhaol, cewch eich symud i ystafell arall yn yr adran radioleg i gael eich arsylwi. Mae'r rhan fwyaf o gleifion yn cael eu rhyddhau ar yr un dydd ar ôl cyfnod o arsylwi a phelydr-x boddhaol i sicrhau nad yw'r ysgyfaint wedi datchwyddo. Dylech ddod i'r apwyntiad gyda rhywun arall a ddylai eich gyrru adref ar ôl y prawf. Dylech osgoi trafnidiaeth gyhoeddus ar ôl y biopsi - trefnwch dacsi neu drafnidiaeth breifat arall. Rhaid i rywun aros gyda chi dros nos. Dewch â bag dros nos gyda chi rhag ofn bod angen i chi aros.

A oes unrhyw gymhlethdodau?

Mae hon fel arfer yn driniaeth syml, ond mae'n bosib cael cymhlethdodau.

- Mae nifer fach o gleifion yn cael ysgyfaint datchwyddiedig gan fod aer yn gollwng o'r ysgyfaint i'r gofod o'u cwmpas (niwmothoracs). Mae hyn yn digwydd mewn 1 o bob 5 triniaeth. Caiff hyn ei nodi fel arfer ar y prawf pelydr–X o'r frest cyn i chi gael eich rhyddhau o'r ysbyty. Yn y rhan fwyaf o achosion, ni fydd angen triniaeth, er y gallwch gael cyngor i aros yn yr ysbyty dros nos i'ch monitro ymhellach. Yn anaml iawn (hyd at 5 allan o bob 100 triniaeth) gallai'r niwmothoracs fod yn fawr neu gallech ddatblygu symptomau sy'n gofyn am driniaeth. Gall hyn gynnwys gosod tiwb draenio bach yn y frest ac aros yn yr ysbyty am ddiwrnod neu ddau neu osod tiwb llai (fent) i mewn i'r frest - gallwch fynd adref gyda'r ail opsiwn a dychwelyd i'r ward y diwrnod nesaf am adolygiad.

- Mae'n gyffredin i besychu rhywfaint o waed am ddiwrnod neu ddau ar ôl y driniaeth. Bydd hyn yn gwella fel arfer heb unrhyw driniaeth ac ni fyddai o reidrwydd yn oedi eich rhyddhad o'r ysbyty. Mae gwaedu trwm yn ddigwyddiad hynod brin.

Beth dylwn i ei wneud wrth ddychwelyd adref?

1. Dylech orffwys am y 24 awr nesaf. Dylech osgoi straen mawr a chodi pethau trwm am 48 awr.

2. Os oes unrhyw anghysur o safle'r biopsi, gallwch gymryd poenladdwr ysgafn megis Parasetamol.

3. Os byddwch yn pesychu mwy nag ychydig o lwyau te o waed, dylech fynd i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys agosaf. Hefyd, os nad ydych yn gallu anadlu mor dda â'r arfer, neu os oes poen difrifol yn eich brest o fewn 24 awr ar ôl dychwelyd adref, rhaid i chi fynd i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys agosaf.

Bydd un o'r ysgrifenyddion anadlol yn cysylltu â chi ag amser ar gyfer y driniaeth. Nodwch y manylion hynny isod:

Ewch i'r dderbynfa yn yr adran radioleg (Pelydr-X), Ysbyty Nevill Hall

- **Am .....**

- **Ar .....**

Cyrhaeddwch mewn da bryd, os gwelwch yn dda

Byddwch yn cael taflen wybodaeth wrth gael eich rhyddhau yn esbonio beth i'w wneud os cewch gymhlethdod symptomatig gartref.